
**Hawdd ei Ddeall**




# Cynllun Strategol ar gyfer Llais

## Beth rydyn ni yn bwriadu ei wneud, a sut o 2024 i 2027

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Llais**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Sgwrs Genedlaethol – Cynllun Strategol Llais: 2024-2027'**.

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Hydref 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 40**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llais**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llaiscymru.org

**E-bost:** enquiries@llaiscymru.org

**Ffôn:** 02920 235 558

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Amdanom ni** .......... **4**

**Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn** .......... **7**

**Ein cynlluniau ar gyfer** .......... **9**

**2024 i 2027** .......... **9**

**Ein gwerthoedd a'n hymddygiad** .......... **11**

**Y ffordd rydyn ni'n gweithio** .......... **14**

**Y 5 prif bethau rydyn ni'n gweithio arnyn nhw** .......... **20**

**Dysgu mwy** .......... **39**

**Geiriau Anoddd** .......... **40**

# Amdanom ni

Llais ydyn ni.

Rydyn ni’n cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru.



Rydyn ni’n annibynnol. Mae hyn yn meddwl ein bod ni’n penderfynu pa waith rydyn ni’n ei wneud, sut rydyn ni’n ei wneud, a gyda phwy rydyn ni’n gweithio.




Fe wnaethon ni ddechrau ym mis Ebrill 2023.



Mae gennym ni tua 130 o staff ar draws Cymru. Mae gennym ni 7 tîm mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae ein tîm cenedlaethol yn helpu’r holl dimau eraill.



Mae ein Bwrdd yn gwneud penderfyniadau pwysig ac yn edrych i weld ein bod yn gwneud beth rydyn ni wedi addo ei wneud. Mae'n ein helpu i ateb anghenion pobl yng Nghymru.



Rydyn ni'n gweithio gyda phobl Cymru i wneud yn siŵr bod beth rydych chi'n feddwl yn cael ei glywed ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## Sut rydyn ni'n gwneud hyn

### Gwrando arnoch chi



- Rydyn ni'n siarad â chi am beth rydych chi'n feddwl am iechyd a gofal cymdeithasol.
- Efallai y byddwch chi yn ein gweld ni mewn digwyddiadau neu yn eich cymuned.
- Rydyn ni'n ceisio cyfarfod â chi mewn lleoedd sy'n gweithio i chi.

## Yn siarad drosoch chi



- Rydyn ni'n dweud wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau beth rydych chi'n feddwl am iechyd a gofal cymdeithasol.

- Rhaid iddyn nhw ddweud wrthyn ni sut fyddan nhw yn defnyddio beth rydych chi'n feddwl i wella gwasanaethau.

## Helpu gyda chwynion




- Rydyn ni'n eich helpu chi os ydych chi eisiau gwneud cwyn am iechyd neu ofal cymdeithasol.




Rydyn ni eisiau i fwy o bobl wybod amdanom ni. Yn ôl y gyfraith, rhaid i fyrddau iechyd a chynghorau ddweud wrth bobl amdanom ni.

# Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn



Yn ein blwyddyn gyntaf, fe wnaethon ni wrando, dysgu a gweithio gydag eraill i ddeall beth rydych chi ei angen.



Fe wnaethon ni wneud yn siŵr bod ein sefydliad yn gweithio'n dda, fel ein bod ni yn gallu eich helpu chi'n well.



Rydym am wneud safbwyntiau pobl Cymru yn gryfach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



Rydyn ni'n meddwl am ffyrdd newydd o wella iechyd a gofal cymdeithasol.




Rydyn ni'n gweithio i greu gwasanaethau sy'n gweithio nawr ac yn y dyfodol.

# Heriau sy'n ein hwynebu



Mae mwy o bobl angen cymorth iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn araf i newid.




Mae'n anodd cael apwyntiad meddyg. Mae aros am driniaeth neu ofal yn cymryd gormod o amser.



Mae cael cefnogaeth ar ôl gadael yr ysbyty yn anodd.



Mae teuluoedd yn gofalu am aelodau o'u teulu heb ddigon o gefnogaeth

# Ein cynlluniau ar gyfer 2024 i 2027




Dyma ein cynllun strategol cyntaf. Fe wnaethon ni hynny drwy wrando ar bobl yng Nghymru, ein staff, ein **gwirfoddolwyr**, a'r grwpiau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.




Mae **gwirfoddolwyr** yn gweithio heb gael eu talu. Maen nhw'n helpu pobl a'r gymuned.

Fe wnaethon ni hefyd feddwl am y deddfau y mae'n rhaid i ni eu dilyn, fel:




- Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu 2020
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Safonau'r Gymraeg 2016
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol
- Dyletswydd y Sector Cyhoeddus
- Cynlluniau fel Cynllun Gweithredu Cymru LHDTC+ a Gwrth-hiliol

# Beth rydyn ni eisiau



Rydyn ni'n addo ymdrechu am newidiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



Rydyn ni eisiau system gref, deg a modern i bawb yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau datrys problemau brys a gweithio ar rai tymor hir. Fe fyddwn ni yn gwrando ar bobl ar draws Cymru i'n harwain.



Rydyn ni eisiau Cymru iachach. Gyda system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio i bawb ac sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

# Ein gwerthoedd a'n hymddygiad



Ein **gwerthoedd** ydy beth sy'n bwysig i ni. Ein **hymddygiad** ni ydy sut rydyn ni'n gweithio.

## Cael ein gyrru gan bobl

Rydyn ni yn rhoi anghenion a phrofiadau pobl yn gyntaf.



Rydyn ni'n glir ac yn agored, felly mae pobl yn ein deall ni.



Rydyn ni'n helpu pobl i ddweud eu dweud.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod croeso i bawb.

## Cydweithio




Rydyn ni'n **gynhwysol** ac yn **hygyrch**. Rydyn ni'n gweithio fel tîm.



Mae **cynhwysol** yn meddwl bod pawb yn cael eu cynnwys ac yn gallu ymuno.



Mae **hygyrchedd** yn meddwl bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio. Er enghraifft, cael gwybodaeth yn hawdd ei ddeall.



Rydyn ni'n ysbrydoli eraill ac yn gosod esiampl dda.



Rydyn ni'n rhannu beth rydyn ni'n ei wybod ac rydyn ni'n agored i newid.



Rydyn ni'n gweithio fel tîm gydag eraill i gyflawni ein nodau.

**Cywirdeb**



Rydyn ni'n annibynnol, yn onest ac yn glir am ein gwaith.



Rydyn ni'n trin pobl â gofal.

# Y ffordd rydyn ni'n gweithio



Rydyn ni'n gweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



Yn ystod ein blwyddyn gyntaf fe wnaethon ni brofi ffyrdd gwahanol o weithio i weld beth sy'n gweithio orau.




Rydyn ni wedi defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddysgu i ganolbwyntio ar 4 maes allweddol:

## 1. Cymorth ac ymholiadau cwynion




Rydyn ni'n helpu pobl i gwyno am wasanaethau GIG neu ofal cymdeithasol. Rydyn ni'n darparu cefnogaeth yn seiliedig ar anghenion pob unigolyn.




Rydyn ni’n helpu pobl sydd â chwestiynau am eu gofal a’u cefnogaeth.



Rydyn ni’n defnyddio beth rydyn ni’n ei ddysgu o gwynion i wella ein gwaith.

## 2. Gwrando



Rydyn ni’n gwrando ar beth sy’n bwysig i chi. Fe fydd hyn yn ein helpu i gynllunio ein gwaith yn y dyfodol.



Rydyn ni’n ymweld ag ardaloedd lleol i glywed eich barn. Rydyn ni’n rhannu hyn gyda chynghorau, byrddau iechyd a grwpiau eraill, fel eu bod nhw’n gallu gwneud newidiadau.



Rydyn ni’n gwrando ar bobl o wahanol gymunedau i ddeall eich anghenion.



Rydych chi’n gallu rhannu beth rydych chi’n feddwl mewn sawl ffordd, fel arolygon a sgyrsiau, ar-lein ac yn bersonol.



Rydyn ni’n dysgu o beth rydych chi ac eraill yn ei ddweud wrthyn ni i wella gwasanaethau.

# 3. Nodau rhanbarthol



Rydyn ni'n canolbwyntio ar beth sydd bwysicaf ym mhob maes.



Rydyn ni'n helpu i reoli newidiadau mawr yn y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n effeithio arnoch chi.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod eich barn yn cael ei chlywed ac yn gweithio gyda chi.



Rydyn ni'n gwybod mwy am iechyd. Rydyn ni eisiau deall gofal cymdeithasol yn well.



Rydyn ni'n meithrin cysylltiadau â grwpiau o bobl sydd ddim yn aml yn cael eu cynnwys i glywed beth maen nhw'n feddwl.

## 4. Gweithredoedd cenedlaethol



Rydyn ni’n gweithio i ddeall materion sy’n effeithio ar bobl ar draws Cymru gyfan. Rydyn ni’n cynnwys pobl a sefydliadau partner i wella gwasanaethau.

## Gwybodaeth a data




Rydyn ni’n casglu gwybodaeth gennych chi er mwyn deall problemau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ein helpu i arwain ein gwaith.

Rydyn ni’n cael gwybodaeth mewn sawl ffordd:



- arolygon
- ffurflenni adborth
- grwpiau ffocws
- cyfweliadau
- ymchwil.

# Canlyniadau ac effaith





Rydyn ni'n rhannu canlyniadau ein gwaith gan ddefnyddio straeon, adroddiadau a rhifau i ddangos sut rydyn ni'n helpu.



Rydyn ni'n edrych i weld bod gwasanaethau'n gweithredu ar beth rydych chi wedi ei ddweud ac yn dweud wrthych chi sut maen nhw'n defnyddio'ch barn.

# Y 5 prif bethau rydyn ni'n gweithio arnyn nhw




Yn seiliedig ar beth rydyn ni wedi'i ddysgu yn ein blwyddyn gyntaf, mae gennym ni 5 prif nod.

## 1. Siarad â phawb am iechyd a gofal cymdeithasol



Rydym am i bawb yng Nghymru rannu eu barn ar iechyd a gofal cymdeithasol. A sut y dylai weithio yn y dyfodol.



Fe fyddwn ni yn pwyso ar y llywodraeth, a gwasanaethau i wrando a gweithredu ar beth rydych chi'n ei ddweud.

**I wneud hyn erbyn 2027 fe fyddwn ni yn:**



- Darganfod sut mae pobl yn rhoi eu barn nawr a sut mae gwasanaethau'n gwrando. Fe fyddwn ni'n rhannu beth sydd yn gweithio'n dda.




- Gwneud mwy o ffyrdd i bobl rannu eu barn.



- Cael mwy o **wirfoddolwyr** o wahanol gefndiroedd, i'n helpu i glywed gan fwy o bobl.




- Gweithio gyda'r bobl sy'n gwneud polisïau ac yn rhedeg gwasanaethau. Canolbwyntio ar beth sydd ei angen ar bobl nawr ac yn y dyfodol.



- Darganfod beth mae pobl yn ei feddwl wrth newidiadau mawr a sut maen nhw eisiau helpu.

**Beth rydyn ni'n gwybod sy'n bwysig i bobl:**



- Cadw pobl yn ddiogel.



- Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn well.



- Cael gofal brys ac argyfwng pryd a lle rydych chi ei angen.



- Gwneud gofal wedi'i gynllunio'n gyflymach ac yn llai o straen.

**Ein nodau:**



- Adeiladu rhwydweithiau ar gyfer pobl, cymunedau, a gweithwyr iechyd a gofal i rannu syniadau.



- Mae pawb ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio tuag at system sy'n helpu pawb yng Nghymru.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn deall y newidiadau sydd eu hangen a'u helpu i wneud iddyn nhw ddigwydd.

# 2. Gwthio am wasanaethau sy'n ateb anghenion pawb



Fe fyddwn ni'n siarad i fyny i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy **cynhwysol**, ac yn haws i'w defnyddio.




Fe ddylai cynllunio gwasanaethau fod yn seiliedig ar anghenion pobl yng Nghymru.

**I wneud hyn erbyn 2027 fe fyddwn ni yn:**




- Siarad i fyny i wneud yn siŵr bod sgyrsiau am iechyd a gofal yn cynnwys anghenion pobl.



- Cael arweinwyr i weithio gyda ni i gasglu adborth a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau.



- Dod o hyd i bethau sy'n lleihau **cydraddoldeb** a'u trwsio, fel bod gan bawb fynediad teg at ofal.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



- Dweud wrth bobl am broblemau gyda gwasanaethau a siarad am wasanaethau da.



- Cefnogi a diolch i ofalwyr am eu gwaith pwysig a gofyn i eraill wneud hynny hefyd.

**Beth rydyn ni'n gwybod sy'n bwysig i bobl:**




- Hawdd gweld meddygon, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth.




- Gwasanaethau sy'n parchu anghenion pawb.



- Cael cymorth a gofal gyn hired ag sydd angen.



- Dim newidiadau sydyn i wasanaethau.

**Ein nodau:**



- Gwneud yn siŵr bod cynllunio gwasanaethau yn cynnwys barn pobl.



- Canolbwyntio ar wasanaethau sy’n rhoi gwell gofal ac sy’n ateb anghenion pob unigolyn.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau’n **gynhwysol** ac yn gwrando ar bob barn yng Nghymru.

## 3. Gweithio gyda'n gilydd yn well



Rydyn ni eisiau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio a rhannu syniadau i helpu cymunedau.

**I wneud hyn erbyn 2027 fe fyddwn ni yn:**



- Gweithio gydag eraill i ddefnyddio beth maen nhw'n ei wybod i wneud newidiadau mwy.



- Rhannu beth sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal, fel bod eraill yn gallu gwneud yr un peth.



- Helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd a defnyddio adnoddau'n well.

**Beth rydyn ni'n gwybod sy'n bwysig i bobl:**



- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n ddidrafferth.



- Rhannu arferion da a'u haddasu i anghenion lleol.



- Rhoi pobl yn gyntaf.




- Dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a pheidio â'u gwneud eto.

**Ein nodau:**



- Dod â phobl a chymunedau at ei gilydd.




- Rhannu adnoddau a chefnogi prosiectau sy’n cynnwys llawer o grwpiau i gael gwared ar rwystrau.

# 4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg



Rydyn ni eisiau i bobl a gwasanaethau deimlo'n dda am ddefnyddio **technoleg** ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

> Mae **technoleg** yn bethau fel cyfrifiaduron, gliniaduron, ffonau clyfar a'r rhyngrwyd.



Rydyn ni eisiau helpu pobl a gwasanaethau i siarad â'i gilydd, fel nad oes neb yn teimlo eu bod wedi'u gadael allan.

**I wneud hyn erbyn 2027 fe fyddwn ni yn:**




- Gwrando ar beth mae pobl yn ei feddwl am **dechnoleg** newydd ym maes iechyd a gofal.




- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel. A dim ond yn ei ddefnyddio i roi gwell gofal.



- Gwneud yn siŵr bod **technoleg** newydd yn hawdd i bawb. Gan gynnwys y rhai sydd ddim fel arfer yn ei ddefnyddio.



- Dal ati i ddysgu am **dechnoleg** newydd i helpu pobl i'w defnyddio'n well.



- Gweithio gydag eraill i weld ydy **technoleg** newydd yn helpu pobl.

**Beth rydyn ni'n gwybod sy'n bwysig i bobl:**




- Cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel.




- Cael help gyda defnyddio'r rhyngrwyd a **thechnoleg** newydd.



- Gwybod lle i ddod o hyd i wybodaeth a chymorth.



- Cael dewisiadau os nad ydyn nhw eisiau defnyddio **technoleg**.

**Ein nodau:**




- Mwy o bobl sy'n ymwneud â chynllunio sut mae **technoleg** yn cael ei defnyddio mewn gofal.



- Mynediad haws at wybodaeth a chyngor iechyd a gofal.



- Gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gadw gwybodaeth yn ddiogel.



- Mae **technoleg** yn gweithio i bawb ac mae gwasanaethau'n gwneud newidiadau os nad ydy e.

# 5. Tyfu a gwella fel sefydliad



Rydyn ni eisiau i bobl ymddiried ynddon ni a'n gwerthfawrogi am y gwaith rydyn ni'n ei wneud.



Rydyn ni eisiau bod yn lle gwych i weithio ynddo sy'n rhoi cynnig ar syniadau newydd.

**I wneud hyn erbyn 2027 fe fyddwn ni yn:**



- Defnyddio **strategaeth gyfathrebu** i adeiladu ymddiriedaeth a dweud wrth bobl beth rydyn ni'n ei wneud.



- Helpu ein staff a'n **gwirfoddolwyr** i weithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd.



- Cael **strategaeth wirfoddoli** i wneud **gwirfoddoli** gyda ni yn well. Gwneud mwy o gyfleoedd i wirfoddoli. Dangos ein bod yn gwerthfawrogi ein **gwirfoddolwyr**.



- Cynnwys staff a **gwirfoddolwyr** wrth gynllunio ein dyfodol. Rhoi mwy o hyfforddiant a gwobrau.



- Gwneud ffyrdd o helpu ein staff a'n partneriaid i gysylltu â phob cymuned yn hawdd.



- Gweithio mewn ffyrdd gwell i gynyddu ein heffaith.

**Beth rydyn ni'n gwybod sy'n bwysig i bobl:**



- Ein hannibyniaeth.



- Effaith ein gwaith.



- Defnyddio arian cyhoeddus yn dda.




- Gwerthfawrogi anghenion gwahanol pawb.

**Ein nodau:**



- Adeiladu ymddiriedaeth drwy werthfawrogi beth mae pobl yn feddwl a'u cael nhw i gymryd rhan.



- Dangos ein bod ni yn llais pwysig mewn penderfyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.



- Gwneud y ffordd rydyn ni'n gweithio'n well i greu mwy o effaith.

# Dysgu mwy

Cysylltwch â ni drwy:



**E-bost**: enquiries@llaiscymru.org



**Ffôn**: 02920 235 558

**Post:**



Llais
3ydd Llawr
33 - 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB

# Geiriau Anoddd

### Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl bod pawb yn cael eu cynnwys ac yn gallu ymuno.

### Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn gweithio heb gael eu talu. Maen nhw'n helpu pobl a'r gymuned.

### Hygyrchedd

Mae hygyrchedd yn meddwl bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio. Er enghraifft, cael gwybodaeth yn hawdd ei ddeall.

### Technoleg

Mae technoleg yn bethau fel cyfrifiaduron, gliniaduron, ffonau clyfar a'r rhyngrwyd.